BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Ystadegau am gyflyrau niwroddatblygiadol mewn plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru

Rhagfyr 2025

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cysylltwch â ni

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Ebost: hcargc@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/ystadegau/

Cynnwys

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Nodiadau ar y data 4

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y boblogaeth yn lleihau 7

Mae gwell dealltwriaeth o'r cyflwr yn golygu bod cyfraddau cyffredinolrwydd awtistiaeth wedi cynyddu 9

Efallai bod y cyfraddau'n dal i gael eu tanamcangyfrif, yn enwedig ar gyfer merched 9

Amcangyfrifir bod tua 2,300 o plant a'r bobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn byw gyda awtism 9

Gall rhwng 6,650 a 13,310 o blant yng Ngogledd Cymru fod ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) er bod hyn yn anoddach i'w amcangyfrif 10

Mae'n anoddach amcangyfrif cyfraddau cyffredinolrwydd dyslecsia, dyspracsia a dyscalcwlia 12

Dyslecsia 12

Dyspracsia 12

Dyscalcwlia 13

Mae nifer y plant ag awtistiaeth sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cynyddu 14

Defnyddir data ADY i gyfrifo cyfraddau cyffredinolrwydd ond nid yw'n cyfrif pob plentyn niwroamrywiol 19

Y prif gyflyrau ar gyfer plant sy'n hawlio budd-daliadau anabledd yw anhwylderau ymddygiadol ac anawsterau dysgu 21

Gall nifer y plant niwroamrywiol sydd angen cefnogaeth gynyddu yn y dyfodol, hyd yn oed os bydd nifer y plant yn y boblogaeth yn lleihau 24

Atodiad: ystadegau niwroamrywiaeth ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol 26

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Cynhyrchwyd y darn hwn o waith gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2025. Mae'n diweddaru'r bwletin a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2025. Bydd yn ffurfio rhan o'r rhaglen o ddiweddariadau i'r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth a bydd copi ar gael ar wefan Bwrdd Partneriaeth. Ein nod yw adolygu'r bwletin hwn bob blwyddyn ac ychwanegu data ac ymchwil newydd pan fydd ar gael.

Ni ddylid darllen yr adroddiad hwn ar ei ben ei hun. Mae angen defnyddio'r data a gyflwynir yma ochr yn ochr â straeon plant a'u teuluoedd i ddeall cryfderau a heriau plant fel y gallwn greu mannau cynhwysol lle gallant ffynnu.

Rydym wedi cyhoeddi pecyn gwybodaeth canolbwyntio ar niwroddatblygiad sy'n cynnwys yr hyn y mae plant a theuluoedd yn ei ddweud am eu profiadau a ffyrdd o wella cefnogaeth. Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Plant yn gweithio gydag addysg, iechyd, sefydliadau gwirfoddol, plant a theuluoedd i wella cefnogaeth, gan gynnwys datblygu amgylcheddau niwro-gadarnhaol.

Rydym hefyd yn cyhoeddi chwiliadau llenyddiaeth a chrynodebau tystiolaeth eraill ar ein gwefan sy'n cynnwys pynciau sy'n ymwneud â phlant â chyflyrau niwroddatblygiadol a'u teuluoedd.

Nodiadau ar y data

Nid oes cofrestr gyflawn o blant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol ac felly dibynnwn ar amryw ffynonellau data procsi. Ceir gwahanol ddiffiniadau yn yr hyn y mae'r ffynonellau hynny'n ei gyfrif ac amrywiant mawr ym manylder y dadansoddiadau o'r boblogaeth o blant â chyflyrau niwroddatblygiadol yng Ngogledd Cymru. Mae'n werth bwrw golwg ar bob ffynhonnell, serch hynny, i gael dealltwriaeth fwy trylwyr o'r sefyllfa.

Ni allwn gynnwys data'r GIG ynglŷn â diagnosisau, atgyfeiriadau a rhestrau aros ar hyn o bryd gan nad yw'r data hynny'n gyhoeddus eto. Os cyhoeddir y data byddwn yn eu hychwanegu i'r bwletin y gobeithiwn ei gyhoeddi o'r newydd yn flynyddol.

Oherwydd ein bod yn edrych ar ardaloedd chwe awdurdod unedol ac eisiau gwneud cymariaethau mor deg â phosibl, rydym yn defnyddio data sydd ar gael ar sail safonol ar gyfer pob maes. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio ffynonellau data a gyhoeddwyd yn swyddogol yn bennaf. Efallai na fydd y rhain yn

rhoi darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd mewn ardal, a gallant ddangos patrymau gwahanol i ddata gweinyddol a gedwir yn lleol. Efallai y bydd data gweinyddol ar gael yn uniongyrchol gan gynghorau lleol neu ddarparwyr gwasanaethau os ydych am edrych ar ddarlun llawnach ar gyfer eich ardal.

Mae llawer o'r data yr ydym yn dibynnu arno yn dod o gofrestrau a ddefnyddir i helpu i redeg gwasanaethau, i gadw golwg ar bobl neu sefydliadau sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, neu i fesur perfformiad (a elwir weithiau'n ddata gweinyddol). Mae hwn yn werthfawr iawn ac weithiau'r unig ddata sydd gennym. Ond oherwydd nad yw wedi'i gynllunio ar gyfer dadansoddi anghenion nid yw bob amser yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd o ddiddordeb i ni, neu gall ddiffinio pethau'n wahanol. Byddwn yn dweud wrthych pryd y mae hyn yn wir.

Gall y ffordd y mae data'n cael ei gasglu, ei gofnodi a'i ddehongli fod yn wahanol hefyd ar gyfer pob sefydliad, neu hyd yn oed ar gyfer setiau data tebyg o fewn yr un sefydliad. Oherwydd hyn mae'n rhaid i ni hefyd fod yn ofalus ynghylch sut rydym yn ei ddadansoddi ac yn ei adrodd. Lle bydd hyn yn digwydd, byddwn yn sôn amdano yn y bwletin.

Lle bo'n bosibl, rydym wedi edrych ar y data diweddaraf a darparu cymhariaeth â'r hyn a oedd yn digwydd 10 mlynedd yn flaenorol, i helpu i fesur newidiadau dros amser. Nid yw'r cyfnodau amser a gaiff eu mesur gan wahanol ffynonellau data yn cyd-fynd. Mae gwahanol ffynonellau'n defnyddio gwahanol amrediad oedran i ddiffinio 'plentyn' hefyd – lle bo'n bosibl, mae unrhyw nodweddion (er enghraifft, sylfaen boblogaeth wrth gyfrifo canran) wedi'u paru â'r ffynhonnell ddata.

Mae amcangyfrifon o niferoedd poblogaeth wedi'u hadolygu yn dilyn rhyddhau canlyniadau o Gyfrifiad 2021, felly mae'r hyn yr ydym yn ei ddeall am dueddiadau'r boblogaeth wedi newid ers i Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y bydd rhai rhifau, cyfraddau a chanrannau yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd o'r blaen, ac ni ystyrir bod rhai ffynonellau data yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ddibynadwy bellach (yn benodol, amcanestyniadau a rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol).

Mae'r cyfrifiadau yr ydym wedi'u defnyddio yn y bwletin hwn yn defnyddio cyfraddau ar wahân ar gyfer dynion a merched. Cyfrifwyd y cyfansymiau drwy adio'r ffigurau ar gyfer y dynion a'r merched, ac nid drwy ddefnyddio'r cyfraddau mynychder 'cyfartalog' ar gyfer y boblogaeth.

Rhagdybir bod y cyfraddau mynychder a ddefnyddiwyd yn y bwletin hwn yn parhau'n sefydlog ar draws poblogaethau – lle, ar wahân i'r rhaniad rhwng dynion a merched, rydym yn defnyddio'r un cyfraddau mynychder ar gyfer yr holl grwpiau poblogaeth. Mewn gwirionedd, mae amrywiadau rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol-economaidd a gwahanol grwpiau ethnig a diwylliannol, ond nid oes gennym y data a fyddai'n ein galluogi ni i ddefnyddio mynychder ar lefel mwy gronynnog nag amcangyfrifon y consensws yr ydym wedi'i ddefnyddio.

Amharodd y pandemig Covid-19 ar ddilyniant data a'r gallu i gymharu rhai setiau data â'i gilydd – boed hynny oherwydd newid y drefn o gasglu data neu roi'r gorau iddi'n gyfan gwbl, neu oherwydd bod pobl yn ymddwyn yn wahanol ac felly heb gael eu cyfrif yn yr un ffordd neu yn yr un lleoedd. Rydym wedi nodi'r rhannau hynny o'r adroddiad hwn lle mae'r pandemig yn debygol o fod wedi effeithio ar y data.

Mae ffigurau ar gyfer dangosyddion niwroamrywiaeth ar gael ym mhrif gorff yr adroddiad ar lefel Gogledd Cymru ac awdurdod lleol. Mae rhai o'r dangosyddion ar gael ar lefel clwstwr gofal sylfaenol a chyflwynir y rhain yn yr atodiad.

Mae nifer y plant a'r bobl ifanc yn y boblogaeth yn lleihau

Data sylfaenol am y boblogaeth yw'r sail ar gyfer ein dealltwriaeth o unrhyw newid yn y niferoedd, cyfraddau a chanrannau y byddwn yn bwrw golwg arnynt yng nghyd-destun y problemau gofal cymdeithasol a lles y mae gennym ddiddordeb neilltuol ynddynt.

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (2024) yn nodi bod cyfanswm nifer y bobl 0 i 17 oed yng Ngogledd Cymru yn oddeutu 133,050.

Ffigur 1: nifer y bobl oedran 0 i 17 yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Ynys Môn	12,950	18.7%	13,650	19.6%	-750
Gwynedd	21,600	17.9%	23,250	19.4%	-1,650
Conwy	20,350	17.7%	21,650	18.7%	-1,300
Sir Ddinbych	19,400	19.8%	19,450	20.5%	-50
Sir y Fflint	30,750	19.7%	31,850	20.8%	-1,100
Wrecsam	28,000	20.3%	29,150	21.5%	-1,150
Gogledd Cymru	133,050	19.1%	139,050	20.2%	-6,000

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm. Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn gyffredinol, mae nifer y plant a phobl ifanc yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng ar draws Gogledd Cymru yn y degawd diwethaf. Ym mhob ardal mae plant a phobl ifanc hefyd yn ffurfio cyfran lai o'r boblogaeth yn 2024 nag yn 2014. Mae nifer y plant a phobl ifanc 0 i 17 oed yng Ngogledd Cymru wedi gostwng tua -6,000 yn y cyfnod hwnnw.

Mae'r gyfran o blant ym mhoblogaeth Gogledd Cymru'n weddol fach at ei gilydd o gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr o 20.6%.

Bu gostyngiad yn nifer y genedigaethau a'r cyfraddau geni ymhob ardal awdurdod lleol rhwng 2014 a 2024 ac mae'r tueddiad wedi bod ar i lawr ers y 1970au. Mae'r cyfraddau geni'n is na'r lefel naturiol ar gyfer adnewyddu'r boblogaeth ledled Gogledd Cymru.

Mae allfudiad net oedolion ifanc mewn rhai ardaloedd wedi cael effaith ar nifer y plant hefyd, gan ei fod yn lleihau nifer y menyw o oed cael plant yn y boblogaeth.

Mae'r rhain yn dueddiadau sy'n debygol o barhau yn y dyfodol.

Mae gwell dealltwriaeth o'r cyflwr yn golygu bod cyfraddau cyffredinolrwydd awtistiaeth wedi cynyddu

Cynhaliodd Prifysgolion Caergrawnt a Newcastle astudiaeth yn 2021 a awgrymodd fod tua un o bob 57 o blant yn y Deyrnas Gyfunol ar y sbectrwm awtistig (1.76% neu 17.6 ymhob 1,000), a oedd yn llawer uwch na'r hyn a gofnodwyd o'r blaen. Roedd y nifer wedi cynyddu ers i'r un tîm gynnal astudiaeth yn 2009 a awgrymodd fod un o bob 64 o blant yn awtistig (1.57% neu 15.7 ymhob 1,000).

Efallai bod y cyfraddau'n dal i gael eu tanamcangyfrif, yn enwedig ar gyfer merched

Dywed yr ymchwilwyr bod y cynnydd mewn cyffredinrwydd yn debygol o ddeillio o'r ffaith bod rhieni ac ysgolion wedi dod yn well am gydnabod awtistiaeth mewn blynyddoedd diweddar. Gan ystyried bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwroamrywiaeth yn dal i ddatblygu, mae'n debygol bod y cyfraddau newydd hyn yn amcangyfrif rhy isel o'r cyfraddau go iawn ac y bydd gwaith ymchwil yn y dyfodol yn canfod bod cyffredinrwydd wedi cynyddu eto. Mae'r ymchwil yn awgrymu diffyg o safbwynt rhoi diagnosis o awtistiaeth i enethod a merched ac felly mae'r ffigurau ar gyfer benywod yn debygol o fyd yn rhy isel hefyd. Credir bod y diffyg diagnosis yn deillio o gyfuniad o'r ffordd y mae'r cyflwr yn mynegi ei hun ymysg genethod a merched, y ffordd y gallant addasu'n gymdeithasol neu guddio'u symptomau'n well na bechgyn a dynion, ac yn rhannol oherwydd hen ganfyddiad mai cyflwr 'gwrywaidd' yw awtistiaeth yn bennaf.

Yn yr astudiaeth yn 2021 roedd cyffredinrwydd awtistiaeth yn 2.8% ymysg bechgyn a 0.65% ymysg genethod.

Amcangyfrifir bod tua 2,300 o plant a'r bobl ifanc yng Ngogledd Cymru yn byw gyda awtism

Ar sail y cyfraddau cyffredinrwydd diweddaraf, amcangyfrifir fod yno tua 2,330 o blant yng Ngogledd Cymru ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yn 2024. Roedd hynny'n cynnwys tua 1,910 o fechgyn a 420 o enethod. Mae'r niferoedd yn debygol o fod wedi gostwng ychydig ar y cyfan yn y deng mlynedd ers 2014, yn unol â'r gostyngiad yn y boblogaeth 0 i 17 oed yn yr un cyfnod. Cymhwyswyd y cyfraddau

cyffredinrwydd yn unffurf ar gyfer pob ardal a chyfnod o amser, heb ystyried unrhyw amrywiant lleol neu ragamcan o newid mewn cyfraddau cyffredinrwydd dros amser.

Ffigur 2: amcangyfrif o nifer y bobl 0 i 17 oed ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 bechgyn	2024 merched	2024 holl plant	2014 holl plant	Newid 2014-24
Ynys Môn	180	40	230	240	-10
Gwynedd	310	70	380	410	-30
Conwy	290	60	360	380	-30
Sir Ddinbych	280	60	340	340	0
Sir y Fflint	440	100	540	560	-20
Wrecsam	400	90	490	510	-20
Gogledd Cymru	1,910	420	2,330	2,440	-110

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Cymhwyswyd y cyfraddau cyffredinrwydd i'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn wahaniaethol ar gyfer bechgyn (2.8%) a genethod (0.65%) ymhob blwyddyn.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Roman-Urrestarazu, R et al. Association of Race/Ethnicity and Social Disadvantage with Autism Prevalence in 7 Million School Children in England. JAMA Pediatrics; 29 Mawrth 2021

Mae astudiaethau hefyd wedi dangos amrywiant mewn cyfraddau cyffredinrwydd rhwng gwahanol grwpiau economaidd-gymdeithasol a gwahanol grwpiau ethnig a diwylliannol (Roman-Urrestarazu et al (2021) 'Association of Race/Ethnicity and Social Disadvantage With Autism Prevalence in 7 Million School Children in England'. JAMA Pediatrics). Canfuwyd y cyfraddau cyffredinrwydd uchaf ymysg disgyblion Du (2.11%) a'r rhai isaf ymysg disgyblion Roma/Teithwyr Gwyddelig (0.85%). Nid ydym, fodd bynnag, yn meddu ar y data yng Ngogledd Cymru a fyddai'n ein galluogi i gymhwyso cyfraddau cyffredinrwydd yn fwy manwl na'r amcangyfrifon cyffredin rydym wedi'u defnyddio yn ffigur 2.

Gall rhwng 6,650 a 13,310 o blant yng Ngogledd Cymru fod ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) er bod hyn yn anoddach i'w amcangyfrif

Mae'n anos amcangyfrif y cyfraddau cyffredinrwydd ar gyfer anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) gan nad oes cymaint o ymchwil wedi'i

wneud i'r cyflwr. Amcangyfrifir bod cyffredinrwydd ADHD ymysg plant yn fyd-eang tua 5%, ac mae astudiaethau o boblogaethau yn yr Unol Daleithiau (lle mae'r cyfraddau diagnosis a thriniaeth yn dueddol o fod uchaf) yn amcangyfrif bod y gyfradd rhwng 8% a 10%.

Mae'r tabl isod yn dangos cyffredinrwydd o 5% fel yr amrediad is a 10% fel amrediad uwch. Byddai hynny'n awgrymu fod yno rhwng 6,650 a 13,310 o blant a phobl ifanc 0 i 17 oed â ADHD yng Ngogledd Cymru yn 2024.

Ffigur 3: amcangyfrif o nifer y bobl 0 i 17 oed ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) yng Ngogledd Cymru, 2024

Ardal	Amcangyfrif is	Amcangyfrif uchaf
Ynys Môn	650	1,290
Gwynedd	1,080	2,160
Conwy	1,020	2,030
Sir Ddinbych	970	1,940
Sir y Fflint	1,540	3,070
Wrecsam	1,400	2,800
Gogledd Cymru	6,650	13,310

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r amcangyfrif isaf yn seiliedig ar gyfradd cyffredinrwydd o 5% a'r amcangyfrif uchaf yn seiliedig ar gyfradd cyffredinrwydd o 10% wedi'i chymhwyso i'r amcangyfrif o'r boblogaeth yn y grŵp oedran dan sylw.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; BMJ Best Practice (2022) Attention deficit hyperactivity disorder in children, BMJ Publishing Group.

Mae tri o is-deipiau o ADHD:

- Yr is-deip diffyg canolbwyntio yw rhwng 20% a 30% o'r holl achosion.
- Yr is-deip gorfywiog-mympwyol yw tua 15% o'r achosion.
- Yr is-deip cyfun yw rhwng 50% a 75% o'r achosion.

Mae diagnosis o ADHD yn fwy cyffredin ymysg bechgyn na genethod. Amcangyfrifir bod y gymhareb cyffredinrwydd yn 2–5:1 ac mewn poblogaethau clinigol mae'r gymhareb mor uchel â 10:1. Gallai'r gwahaniaeth ddeillio o'r ffaith bod bechgyn yn amlach yn dangos ymddygiad sy'n tarfu ar eraill a bod genethod yn fwy tebygol o fod â'r is-deip diffyg canolbwyntio ac yn llai tebygol o fod ag anhwylder herio

gwrthryfelgar ac anhwylder ymddygiad. (BMJ Best Practice (2022) Attention deficit hyperactivity disorder in children, BMJ Publishing Group.)

Gallai lefelau tlodi hefyd effeithio ar ddiagnosis ADHD mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r data yng nghronfa ddata gofal sylfaenol y Deyrnas Gyfunol yn dangos bod cyffredinrwydd diagnosis ADHD ddwywaith yn uwch yn yr ardaloedd hynny yn y cwintel mwyaf difreintiedig o gymharu â'r cwintel lleiaf difreintiedig.

Sylwer: gall plant fod wedi cael eu cyfrif o fewn mwy nag un categori ar gyfer y set ddata hon felly ni ddylid ychwanegu'r canlyniadau o'r tablau yn ffigurau 1 a 2 i gael cyfanswm.

Mae'n anoddach amcangyfrif cyfraddau cyffredinolrwydd dyslecsia, dyspracsia a dyscalcwlia

Bu llawer iawn yn llai o ymchwil i gyflyrau niwroddatblygiadol eraill fel dyslecsia, dyspracsia a dyscalcwlia ac felly nid oes gennym gystal dealltwriaeth o'r rheiny. Nid oes unrhyw gonsensws ynghylch cyfraddau cyffredinrwydd na diffiniadau o ddifrifoldeb ac felly ni allwn wneud amcangyfrif pendant o nifer y plant a phobl ifanc â'r cyflyrau hyn.

Dyslecsia

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn amcangyfrif bod 10% o boblogaeth y Deyrnas Gyfunol â dyslecsia, gan gynnwys 4% o'r boblogaeth sydd â dyslecsia difrifol. Mae ffynonellau eraill yn awgrymu bod y gyfradd 'rhwng 3% a 5%', '1 o bob 5' neu '20%' wedi'i dalgrynnu. Mae'n anodd, fodd bynnag, dod o hyd i'r ffynonellau gwreiddiol ar gyfer yr ystadegau hyn.

Mwy o wybodaeth: https://www.bdadyslexia.org.uk/ (Saesneg yn unig)

Dyspracsia

Mae'r Sefydliad Dyspracsia'n amcangyfrif bod dyspracsia (a elwir hefyd yn anhwylder cydlyniant datblygiadol neu DCD) yn effeithio ar tua 5% o blant oedran ysgol, sy'n cynnwys tua 2% o blant â dyspracsia mwy difrifol. Yn y rhan helaeth o achosion, mae'r problemau'n parhau nes bod y plant yn eu harddegau ac yn tyfu'n oedolion.

Dywedant hefyd bod dyspracsia/DCD yn fwy tebygol o effeithio ar blant gwrywaidd na rhai benywaidd, ond bod plant benywaidd yn aml yn hŷn pan sylwir ar eu hanawsterau.

Mwy o wybodaeth: https://dyspraxiafoundation.org.uk/ (Saesneg yn unig)

Dyscalcwlia

Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn amcangyfrif bod 6% o bobl â dyscalcwlia. Mae'n amcangyfrif hefyd bod 25% o bobl ag anawsterau dysgu mathemategol sy'n gallu deillio naill ai o gyflyrau niwroamrywiol fel dyslecsia neu ffactorau allanol fel profiad dysgu trawmatig yng nghyd-destun mathemateg neu absenoldeb o'r ysgol. Mae 60% o bobl â dyslecsia'n cael trafferth â mathemateg.

Mwy o wybodaeth: https://www.bdadyslexia.org.uk/dyscalculia (Saesneg yn unig)

Mae nifer y plant ag awtistiaeth sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cynyddu

Mae gennym wybodaeth ychwanegol o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), sy'n dangos sefyllfa ychydig yn wahanol. Mae'r gofrestr ddata hon yn cynnwys gwybodaeth am blant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), a elwir weithiau'n anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r data hyn yn cynnwys yr holl blant sydd wedi cael datganiad neu sydd â chynllun datblygu unigol/gan yr ysgol. Ni chasglwyd data ond ers 2016/17 ac felly nid oes modd inni ystyried unrhyw duedd dros ddeng mlynedd.

Sylwer: gall plant fod wedi cael eu cyfrif o fewn mwy nag un categori ar gyfer y set ddata hon felly ni ddylid ychwanegu'r canlyniadau o'r tablau yn ffigurau 4, 5 a 6 i gael cyfanswm.

Ffigur 4: disgyblion ag awtistiaeth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru

Ardal	Ionawr 2025 nifer	Ionawr 2025 gradd
Ynys Môn	235	25.0
Gwynedd	280	17.0
Conwy	385	25.4
Sir Ddinbych	305	19.2
Sir y Fflint	410	18.5
Wrecsam	335	17.8
Gogledd Cymru	1,955	20.0
Cymru	10,975	23.9

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn yr ardal.

Ffynhonnell: ADY/AAA yn ôl y math o angen, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru

Dengys y data diweddaraf sydd ar gael – o Gyfrifiad Ysgolion 2024/25, a gasglwyd fis Ionawr 2025 – fod yno tua 1,955 o blant ag awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol yng Ngogledd Cymru. Er gwaethaf gostyngiad mewn rhai ardaloedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r, mae tueddiadau cyffredinol ar i fyny ac mae'r nifer wedi cynyddu o tua 1,485 o blant yn 2016/17. Mae'r cynnydd wedi digwydd ar yr un pryd â gostyngiad yn nifer y plant yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Yn yr un cyfnod, mae'r gyfradd yng Ngogledd Cymru wedi codi o 14.6 fesul 1,000 o ddisgyblion i 20.0 fesul 1,000.

Ffigur 5: disgyblion ag ADHD mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru

Ardal	Ionawr 2025 nifer	Ionawr 2025 gradd
Ynys Môn	105	11.2
Gwynedd	110	6.7
Conwy	80	5.3
Sir Ddinbych	90	5.7
Sir y Fflint	145	6.5
Wrecsam	135	7.2
Gogledd Cymru	665	6.8
Cymru	2,400	5.2

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn yr ardal.

Ffynhonnell: ADY/AAA yn ôl y math o angen,Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru

Mae nifer y disgyblion yng Ngogledd Cymru ag anghenion dysgu ychwanegol oherwydd anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd wedi gostwng yn yr un cyfnod, o tua 860 yn 2016/17 i 655 yn 2024/25. Bu cynnydd mewn rhai ardaloedd a gostyngiad mewn rhai eraill, fodd bynnag, ac felly nid oes unrhyw batrwm i'w weld yn y rhanbarth yn gyffredinol.

Mae'r cyfraddau'n amrywio o un awdurdod lleol i'r llall yng Ngogledd Cymru. Mae'r niferoedd a'r cyfraddau yng Nghonwy a c Ynys Môn yn llawer uwch na'r hyn y gellid ei ddisgwyl ar sail yr amcangyfrifon o gyffredinrwydd awtistiaeth yn benodol. Yng Nghonwy, mae hyn yn debygol o fod oherwydd presenoldeb Ysgol y Gogarth yn Llandudno sy'n ysgol arbenigol ar gyfer plant sydd â datganiad, sydd â chynllun gweithredu ysgol neu gynllun datblygu unigol, neu sy'n mynd trwy'r broses o gael datganiad.

Ffigurau 6a a 6b: disgyblion â dyslecsia, dyspracsia a dyscalcwlia mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru, Ionawr 2025

Ardal	Dyslecsia nifer	Dyspracsia nifer	Dyscalcwlia nifer
Ynys Môn	110	35	10
Gwynedd	245	55	15
Conwy	240	10	15
Sir Ddinbych	35	5	<5
Sir y Fflint	90	10	<5
Wrecsam	50	10	<5
Gogledd Cymru	775	125	50

Ardal	Dyslecsia gradd	Dyspracsia gradd	Dyscalcwlia gradd
Ynys Môn	11.7	3.7	1.1
Gwynedd	14.9	3.3	0.9
Conwy	15.8	0.7	1.0
Sir Ddinbych	2.2	0.3	-
Sir y Fflint	4.1	0.5	-
Wrecsam	2.7	0.5	-
Gogledd Cymru	7.9	1.3	0.5
Cymru	5.0	0.7	0.4

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn yr ardal.

Ffynhonnell: ADY/AAA yn ôl y math o angen, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru

Mae niferoedd a chyfraddau achosion o ddyslecsia, dyspracsia a dyscalcwlia wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2017 a 2025 ymhob ardal awdurdod lleol yng ngogledd Cymru ymysg plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn ogystal â datganiad neu gynllun gweithredu unigol/gan yr ysgol. Y rheswm am hynny yn ôl pob tebyg yw newidiadau mewn polisïau ynglŷn â darparu cymorth mewn ysgolion ar gyfer y cyflyrau dan sylw, a'r modd y gweithredir y broses o gael datganiad neu gynllun gweithredu.

Ffigur 7: disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion a gynhelir yng Ngogledd Cymru – cyfraddau cymharol ar gyfer 2016/17 a 2024/25

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn yr ardal.

Mae'r holl siartiau ar yr un raddfa lorweddol fel bod modd eu cymharu yn ôl eu golwg.

Mae'n bosibl bod plant wedi'u cyfrif o fewn categorïau lluosog ar gyfer y set ddata hon felly ni ddylid ychwanegu'r canlyniadau o'r siartiau i gael cyfanswm.

Ffynhonnell: ADY/AAA yn ôl y math o angen, Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru






Dyslecsia
Ynys Môn
11.7
37.1
Gwynedd
14.9
34.9
Conwy
15.8
31.5
Sir Ddinbych
2.2
25.2
Sir y Fflint
4.1
10.6
Wrecsam
2.7
10.4
GOGLED D…
7.9
22.7
Cymru
5.0
18.3
2024/25
2016/17


Dyspracsia
Ynys Môn
3.7
7.7
Gwynedd
3.3
5.6
Conwy
0.7
2.8
Sir Ddinbych
0.3
4.2
Sir y Fflint
0.5
1.5
Wrecsam
0.5
2.8
GOGLED D…
1.3
3.7
Cymru
0.7
2.2
2024/25
2016/17


Dyscalcwlia
Ynys Môn
1.1
4.6
Gwynedd
0.9
3.8
Conwy
1.0
4.4
Sir Ddinbych
0.0
1.0
Sir y Fflint
0.0
1.7
Wrecsam
0.0
0.5
GOGLEDD CYMRU
0.5
2.4
Cymru
0.4
1.6
2024/25
2016/17

Rhaid cadw ambell i beth mewn cof wrth ddefnyddio data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion , a gallai'r pethau hynny hefyd egluro'r gwahaniaethau ledled Gogledd Cymru.

- Gan nad yw'r data ond yn cyfrif plant sydd wedi cael datganiad neu sydd â chynllun datblygu unigol/gan yr ysgol, mae'n debygol bod y cyfanswm o blant yn y boblogaeth â chyflyrau niwroddatblygiadol yn rhy isel.
- Cyfrif rhannol o'r boblogaeth yw'r cyfrifiad ysgolion. Nid yw'n cyfrif ond plant oedran ysgol (3-18 oed). Yn y garfan benodol hon o'r boblogaeth, hyd yn oed, mae'r data ar gyfer rhai grwpiau oedran yn llai cyflawn nag eraill oherwydd yr adegau y mae plant yn dechrau eu haddysg ffurfiol neu'n gadael yr ysgol.
- Ni chaiff yr holl blant eu cynnwys yn y cyfrifiad ysgolion. Nid yw'r cyfrifiad ond yn casglu gwybodaeth gan ysgolion yr awdurdod lleol ac nid yw'n cyfrif disgyblion mewn ysgolion preifat neu annibynnol, na phlant sy'n cael eu haddysgu gartref.
- Mae'n cyfrif plant yn y man y darperir addysg iddynt yn hytrach na ble maent yn byw. Nid yw'r data ar gyfer unrhyw ardal benodol yn cynnwys gwybodaeth am y rheiny sy'n teithio i'r ysgol o awdurdod cyfagos, er enghraifft. Bydd y data hefyd yn cynnwys rhai plant sy'n byw y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ond yn derbyn addysg yn un o'i ysgolion.

Mae'r pwynt olaf ar y rhestr yn arbennig yn werth ei ystyried wrth fwrw golwg ar y gwahaniaethau ledled y rhanbarth. Efallai bod ysgolion sy'n darparu cymorth arbenigol i blant niwroamrywiol neu sydd â phrosesau mwy rhagweithiol ar gyfer datganiadau yn denu disgyblion o'r tu allan i'r ardal, er enghraifft. Gallai hynny beri cynnydd yn y niferoedd a'r cyfraddau yn yr ardaloedd lle saif yr ysgolion hynny, a gostyngiad cyfatebol yn yr ardal y mae'r disgybl yn byw ynddi.

Defnyddir data ADY i gyfrifo cyfraddau cyffredinolrwydd ond nid yw'n cyfrif pob plentyn niwroamrywiol

Mae nifer y plant ag awtistiaeth ac anghenion dysgu ychwanegol yng Ngogledd Cymru'n cyfateb yn agos i'r amcangyfrifon o nifer y plant yn y boblogaeth gyffredinol sy'n debygol o fod ag awtistiaeth (gweler yr adran cyffredinrwydd awtistiaeth o'r adroddiad hwn). Cyfrifwyd 1,955 o blant ag awtistiaeth mewn

ysgolion awdurdodau lleol o gymharu ag amcangyfrif o 2,330 yn y boblogaeth gyffredinol. Nid yw hynny'n golygu, fodd bynnag, ein bod wedi 'dod o hyd i' bron pob un o'r plant ag awtistiaeth yn y rhanbarth. Mae'n fwy tebygol bod yr amcangyfrif o gyffredinrwydd awtistiaeth yn rhy isel. Nid yw hynny'n syndod. Er bod yr ymchwil diweddaraf ynglŷn â chyfraddau cyffredinrwydd wedi'i gyhoeddi'n gymharol ddiweddar (yn 2021), roedd yn seiliedig ar ddata a gasglwyd mewn cyfnod cynharach ac ni fyddai wedi adlewyrchu'r tueddiadau mwy diweddar ynghylch codi ymwybyddiaeth a hwyluso diagnosis. Mae yno rywfaint o gylcholdeb hefyd rhwng y data ynglŷn ag anghenion dysgu ychwanegol a'r cyfraddau cyffredinrwydd, gan fod methodoleg y gwaith ymchwil yn dibynnu'n helaeth ar ddata gan ysgolion wrth wneud cyfrifiadau, ac felly gellir disgwyl fod yno rywfaint o gytgord rhwng y naill set ddata a'r llall.

Y prif gyflyrau ar gyfer plant sy'n hawlio budd-daliadau anabledd yw anhwylderau ymddygiadol ac anawsterau dysgu

Ffigurau 8a a 8b: prif gyflwr anabledd plant 0 i 15 oed yng Ngogledd Cymru sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, Mai 2025

Ardal	Anhwylder ymddygiadol canran	Anawsterau dysgu canran	Syndrom gorginetig nifer	Cyfanswm nifer	Yr holl hawlwyr
Ynys Môn	300	290	40	630	800
Gwynedd	390	410	70	870	1,080
Conwy	580	620	110	1,300	1,570
Sir Ddinbych	610	520	120	1,240	1,490
Sir y Fflint	780	670	240	1,690	2,070
Wrecsam	920	600	230	1,750	2,160
Gogledd Cymru	3,570	3,090	800	7,470	9,160

Ardal	Anhwylder ymddygiadol canran	Anawsterau dysgu canran	Syndrom gorginetig canran	Cyfanswm canran	Yr holl hawlwyr
Ynys Môn	37.8%	36.0%	4.9%	78.7%	800
Gwynedd	35.8%	37.7%	6.7%	80.1%	1,080
Conwy	36.7%	39.3%	6.8%	82.8%	1,570
Sir Ddinbych	40.7%	34.7%	8.2%	83.5%	1,490
Sir y Fflint	37.9%	32.3%	11.6%	81.8%	2,070
Wrecsam	42.7%	27.9%	10.4%	81.0%	2,160
Gogledd Cymru	39.0%	33.8%	8.8%	81.6%	9,160

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o'r holl blant 0 i 15 oed sy'n hawlio budd-daliadau Lwfans Byw i'r Anabl.

Ffynhonnell: Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Gall data ynglŷn â'r Lwfans Byw i'r Anabl hefyd roi syniad inni o nifer y plant a phobl ifanc niwroamrywiol yn ein poblogaeth. Cesglir y data hyn ar gyfer yr holl blant rhwng 0 a 15 oed sy'n hawlio'r Lwfans Byw i'r Anabl, ac felly nid oes modd eu cymharu'n uniongyrchol â'r data ar wahanol grwpiau oedran yn yr adran flaenorol.

Mae'n fuddiol, fodd bynnag, o safbwynt cael dealltwriaeth ehangach o'r data sydd gennym ynglŷn â niwroamrywiaeth yng Ngogledd Cymru.

Mae ystadegau ynglŷn â phlant sy'n hawlio'r Lwfans Byw i'r Anabl yn dangos cynnydd yn y niferoedd o hawlwyr ymhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn y degawd diwethaf. Mae hynny er gwaethaf gostyngiad yn y nifer o blant yn y boblogaeth yn yr un cyfnod.

Ym mis Mai 2025, roedd a wnelo'r rhan helaeth o lwyth achosion y Lwfans Byw i'r Anabl yng Ngogledd Cymru ag un o dri o brif gyflyrau sy'n anablu – anhwylderau ymddygiad (39% o'r achosion), anawsterau dysgu (34%) a syndrom gorginetig (9%). Er nad dyma'r unig brif gyflyrau y gellir eu cofnodi fel y cyfryw, dyma'r categorïau sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio wrth gategoreiddio plant niwroamrywiol sy'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl.

Ffigur 9: prif gyflwr anabledd plant 0 i 15 oed yng Ngogledd Cymru sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl – niferoedd cymharol ar gyfer 2015 a 2025



Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Achosion Lwfans Byw i'r Anabl mewn hawl, Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Roedd 82% o'r holl hawlwyr yng Ngogledd Cymru'n perthyn i'r categorïau hyn ym mis Mai 2025, neu gyfanswm o 7,470 o blant, a oedd yn gynnydd o gymharu â 66% (3,150 o blant) fis Mai 2015. Cafwyd y cynnydd mwyaf yn y categori anhwylderau ymddygiad a oedd â phum gwaith cymaint o blant yn 2025 â deng mlynedd yn flaenorol (3,560 o achosion yn 2025 o gymharu â 650 yn 2015).

Efallai bod y twf arwyddocaol yn y categorïau anhwylderau ymddygiad ac anawsterau dysgu yn y deng mlynedd rhwng Mai 2015 a Mai 2025 yn deillio o nifer o ffactorau yn hytrach na bod y cyflyrau hyn wedi dod yn fwy cyffredin – cynnydd mewn diagnosisau oherwydd gwell ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr meddygol a staff gofal, er enghraifft, mwy o blant â'r cyflyrau hyn yn byw yn y gymuned yn hytrach na sefydliadau meddygol neu ofal, neu fwy o deuluoedd a gofalwyr yn ceisio cymorth ar gyfer plant â'r cyflyrau dan sylw. Efallai y bydd angen mwy o waith i ddeall y newidiadau hyn.

Gall nifer y plant niwroamrywiol sydd angen cefnogaeth gynyddu yn y dyfodol, hyd yn oed os bydd nifer y plant yn y boblogaeth yn lleihau

Gan fod nifer y plant yn y boblogaeth yn debygol o barhau i ostwng yn ystod y ddau ddegawd nesaf, yna mae nifer y plant niwroamrywiol yn y boblogaeth gyffredinol hefyd yn debygol o ostwng.

Nid yw hynny, fodd bynnag, yn golygu y bydd nifer y plant sydd angen cymorth ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol yn gostwng yn yr un cyfnod. Mae'r tueddiadau diweddaraf yn awgrymu y gallai nifer y plant sy'n cael diagnosis ac yn ceisio cymorth ddal i godi yn y tymor byr a'r tymor canolig oherwydd gwell ymwybyddiaeth a pharodrwydd i ofyn am gymorth, ond mae arnom angen magu gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi achosi'r cynnydd yn y degawd diwethaf cyn medru darogan unrhyw dueddiadau yn y tymor hir. Efallai hefyd y caiff cyfraddau cyffredinrwydd cydnabyddedig – yn enwedig ar gyfer awtistiaeth ac ADHD – eu diwygio a'u cynyddu yn y dyfodol wrth i bobl fagu gwell dealltwriaeth o'r cyflyrau hyn.

Ffigur 10: amcangyfrif o nifer y bobl 0 i 17 oed a amcanestynnir y bydd ganddynt anhwylderau sbectrwm awtistiaeth yng Ngogledd Cymru, 2034 a 2044

Ardal	Amcangyfrif 2024	Amcanestyniad 2034	Amcanestyniad 2044
Ynys Môn	230	190	180
Gwynedd	380	370	370
Conwy	360	310	300
Sir Ddinbych	340	320	310
Sir y Fflint	540	490	480
Wrecsam	490	420	390
Gogledd Cymru	2,330	2,110	2,030

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2022 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Mae defnyddio amcangyfrifon y consensws i'r amcanestyniad poblogaeth diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru rhagweld y gallai fod 2,110 o blant ag awtistiaeth yng Ngogledd Cymru erbyn 2034 (newid deng mlynedd). Mae

hyn yn ostyngiad o tua -220 neu -10% o ffigurau 2024. Erbyn 2044 (newid 20 mlynedd) disgwylir i'r nifer fod wedi gostwng i tua 2,030 – newid o tua -300 neu -13% o'i gymharu â 2024.

Ffigur 11: amcangyfrif o nifer y bobl 0 i 17 oed a amcanestynnir y bydd ganddynt ADHD yng Ngogledd Cymru, 2034 a 2044

Ardal	Amcan-gyfrif is 2024	Amcan-gyfrif uwch 2024	Amcan-estyniad is 2034	Amcan-estyniad uwch 2034	Amcan-estyniad is 2044	Amcan-estyniad uwch 2044
Ynys Môn	650	1,290	550	1,090	520	1,030
Gwynedd	1,080	2,160	1,050	2,110	1,040	2,080
Conwy	1,020	2,030	890	1,790	850	1,700
Sir Ddinbych	970	1,940	920	1,830	900	1,790
Sir y Fflint	1,540	3,070	1,410	2,820	1,380	2,760
Wrecsam	1,400	2,800	1,180	2,370	1,110	2,220
Gogledd Cymru	6,650	13,310	6,000	12,010	5,790	11,590

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru; amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol, sail-2022 (prif amcanestyniad), Llywodraeth Cymru

Rhagwelir hefyd y bydd nifer y plant ag ADHD yn gostwng – o ystod amcangyfrifedig rhwng 6,650 a 13,310 o blant ag ADHD yn 2024 i ystod amcanestynedig rhwng 5,790 ac 11,590 o blant yn 2044.

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y prif amcanestyniad poblogaeth gan Lywodraeth Cymru, a ryddhawyd ym mis Tachwedd 2025. Mae amcanestyniadau amrywiol ar gael sy'n edrych ar wahanol gyfraddau twf ac yn gwneud gwahanol dybiaethau am dueddiadau poblogaeth yn y dyfodol.

Atodiad: ystadegau niwroamrywiaeth ar gyfer ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol

Ffigur 12: nifer y bobl oedran 0 i 17 mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 nifer	2024 canran	2014 nifer	2014 canran	Newid 2014-24
Gogledd Cymru	133,050	19.1%	139,050	20.2%	-6,000
Ynys Môn a Gwynedd	34,550	18.2%	36,900	19.5%	-2,400
Conwy a Sir Ddinbych	39,750	18.7%	41,100	19.5%	-1,350
Sir y Fflint a Wrecsam	58,750	20.0%	61,050	21.1%	-2,300
Ynys Môn	12,450	18.9%	13,050	19.7%	-600
Arfon	12,100	18.9%	12,500	20.1%	-400
Canol a De Sir Ddinbych	8,200	18.7%	8,600	20.0%	-400
Dwyrain Conwy	9,900	18.2%	10,650	19.4%	-750
Gorllewin Conwy	10,150	17.3%	10,650	18.1%	-500
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	11,450	20.4%	11,950	21.5%	-450
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	7,000	17.2%	8,100	19.5%	-1,100
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	7,400	20.3%	7,600	21.5%	-250
De Meirionnydd	3,000	15.5%	3,250	17.0%	-300
De Sir y Fflint	10,850	19.1%	11,200	20.0%	-350
Gogledd Sir Ddinbych	11,900	20.4%	11,800	21.0%	150
De Wrecsam	9,750	19.7%	10,550	21.1%	-800
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	6,650	20.0%	6,950	20.9%	-300
Canol Wrecsam	12,250	20.5%	12,250	21.6%	0

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 13: amcangyfrif o nifer y bobl 0 i 17 oed ag anhwylderau sbectrwm awtistiaeth mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru

Ardal	2024 bechgyn	2024 merched	2024 holl plant	2014 holl plant	Newid 2014-24
Gogledd Cymru	1,910	420	2,330	2,440	-110
Ynys Môn a Gwynedd	500	110	600	650	-40
Conwy a Sir Ddinbych	570	130	700	720	-30
Sir y Fflint a Wrecsam	840	190	1,030	1,070	-40
Ynys Môn	180	40	220	230	-10
Arfon	170	40	210	220	-10
Canol a De Sir Ddinbych	120	30	140	150	-10
Dwyrain Conwy	140	30	170	190	-10
Gorllewin Conwy	140	30	180	190	-10
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	170	40	200	210	-10
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	100	20	120	140	-20
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	100	20	130	130	0
De Meirionnydd	40	10	50	60	-10
De Sir y Fflint	160	30	190	190	0
Gogledd Sir Ddinbych	170	40	210	210	0
De Wrecsam	140	30	170	190	-20
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	90	20	120	120	-10
Canol Wrecsam	170	40	210	210	0

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Cymhwyswyd y cyfraddau cyffredinrwydd i'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yn wahaniaethol ar gyfer bechgyn (2.8%) a genethod (0.65%) ymhob blwyddyn.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Roman-Urrestarazu, R et al. Association of Race/Ethnicity and Social Disadvantage with Autism Prevalence in 7 Million School Children in England. JAMA Pediatrics; 29 Mawrth 2021

Ffigur 14: amcangyfrif o nifer y bobl 0 i 17 oed ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) mewn ardaloedd iechyd lleol a chlystyrau gofal sylfaenol yng Ngogledd Cymru, 2022

Ardal	Amcangyfrif is	Amcangyfrif uchaf
Gogledd Cymru	6,650	13,310
Ynys Môn a Gwynedd	1,730	3,450
Conwy a Sir Ddinbych	1,990	3,980
Sir y Fflint a Wrecsam	2,940	5,880
Ynys Môn	620	1,250
Arfon	600	1,210
Canol a De Sir Ddinbych	410	820
Dwyrain Conwy	500	990
Gorllewin Conwy	510	1,010
Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint	570	1,150
Dwyfor a Gogledd Meirionnydd	350	700
Gogledd Orllewin Sir y Fflint	370	740
De Meirionnydd	150	300
De Sir y Fflint	540	1,090
Gogledd Sir Ddinbych	600	1,190
De Wrecsam	490	970
Gorllewin a Gogledd Wrecsam	330	660
Canol Wrecsam	610	1,230

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r amcangyfrif isaf yn seiliedig ar gyfradd cyffredinrwydd o 5% a'r amcangyfrif uchaf yn seiliedig ar gyfradd cyffredinrwydd o 10% wedi'i chymhwyso i'r amcangyfrif o'r boblogaeth yn y grŵp oedran dan sylw.

Ffynonellau: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; BMJ Best Practice (2022) Attention deficit hyperactivity disorder in children. BMJ Publishing Group.